PROTOCOL AR GYFER CYFATHREBU DROS YR E-BOST AG ADRAN SIAWNSRI YR UCHEL LYS YN Y LLYSOEDD BARN BRENHINOL

Cyflwyniad

1. Mae'r protocol hwn (y "Protocol E-bost") yn amlinellu sut y caiff partïon ddefnyddio'r e-bost i gyfathrebu ynghylch materion penodol gydag Adran Siawnsri yr Uchel Lys Barn yn y Llysoedd Barn Brenhinol. Daw i rym ar 18fed Ebrill 2005.

Mathau o ddogfennau y gellir eu hanfon dros yr e-bost

2. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 5B y Rheolau Trefniadaeth Sifil ("Cyfathrebu a Ffeilio Dogfennau yn Electronig") yn berthnasol i Adran Siawnsri yr Uchel Lys Barn yn y Llysoedd Barn Brenhinol mewn perthynas â'r categorïau dogfennau y cyfeirir atynt isod.

3. At ddibenion paragraff 2.1(1) Cyfarwyddyd Ymarfer 5B, y "llys penodedig" yw Adran Siawnsri yr Uchel Lys Barn yn y Llysoedd Barn Brenhinol.

4. At ddibenion paragraff 2.1(2) Cyfarwyddyd Ymarfer 5B, y "dogfennau penodedig" yw:

   (a) Dadleuon fframwaith, cronolegau, rhestrau darllen, rhestrau materion, rhestrau awdurdodau (ond nid yr awdurdodau eu hunain) a rhestrau o'r bobl sy'n ymwneud â ffeithiau'r achos *("dramatis personae")* a anfonir cyn gwrandawiad. Dyma'r cyfeiriadau e-bost perthnasol ar gyfer y dogfennau hyn

Ar gyfer gwrandawiad gerbron:	**Defnyddiwch y cyfeiriad hwn:**
Barnwr	rcjchancery.judgeslisting@hmcourt-service.gsi.gov.uk
Meistr	rcjchancery.mastersappointments@hmcourts-service.gsi.gov.uk
Cofrestrydd Methdaliad	rcjbankruptcy.registrarshearings@hmcourts-service.gsi.gov.uk
Cofrestrydd y Llys Cwmnïau	rcjcompanies.orders@hmcourts-service.gsi.gov.uk

   (b) Telerau y cytunwyd arnynt ar gyfer Gorchymyn sy'n barod i'w selio yn dilyn y gwrandawiad. Dyma'r cyfeiriadau e-bost perthnasol ar gyfer y dogfennau hyn:

Ar gyfer gwrandawiad gerbron:	**Defnyddiwch y cyfeiriad hwn:**
Barnwr	rcjchancery.ordersandaccounts@hmcourt-service.gsi.gov.uk
Meistr	rcjchancery.ordersandaccounts@hmcourts-service.gsi.gov.uk
Cofrestrydd Methdaliad	rcjbankruptcy.registrarshearings@hmcourts-service.gsi.gov.uk
Cofrestrydd y Llys Cwmnïau	rcjcompanies.orders@hmcourts-service.gsi.gov.uk

5. Mae'r darpariaethau uchod yn disodli darpariaethau'r Canllaw Siawnsri mewn dwy ffordd o leiaf:

   (a) Er gwaethaf paragraffau 7.26, 7.41 a 7.43 y Canllaw Siawnsri (argraffiad 2002), dylid defnyddio'r cyfeiriadau e-bost uchod ar gyfer anfon y dogfennau perthnasol dros yr e-bost hyd yn oed os yw enw'r Barnwr, y Meistr neu'r Cofrestrydd yn hysbys (oni bai fod y Barnwr, y Meistr neu'r Cofrestrydd yn gorchymyn fel arall).

   (b) Mae paragraff 7.44 y Canllaw Siawnsri (argraffiad 2002) yn nodi, pan fydd angen dadl fframwaith, dylid rhoi llungopïau o unrhyw awdurdodau y dibynnir arnynt ynghlwm wrth y ddadl

fframwaith. Serch hynny, wrth gyflwyno dadleuon fframwaith dros yr e-bost yn unol â'r Protocol E-bost hwn, ni ellir cyflwyno awdurdodau gyda'r ddadl fframwaith (oni bai fod y Barnwr, y Meistr neu'r Cofrestrydd yn gorchymyn fel arall). Rhaid cyflwyno'r awdurdodau ar bapur yn y modd traddodiadol, hyd yn oed os cyflwynir y ddadl fframwaith dros yr e-bost.

6. Ar hyn o bryd ni ellir derbyn unrhyw ddogfennau eraill dros yr e-bost, ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn benodol ym mharagraff 4 uchod (oni bai fod trefniant penodol gyda'r Barnwr, y Meistr neu'r Cofrestrydd dan sylw mewn achos unigol). Yn benodol, ni cheir defnyddio'r e-bost i ffeilio datganiadau achos, hysbysiadau ceisiadau, affidafidau, datganiadau tystion, adroddiadau arbenigwyr, holiaduron dyrannu, holiaduron rhestru, rhestrau gwirio cyn-treial na datganiadau costau. Os bydd parti yn anfon unrhyw fath o ddogfen dros yr e-bost, ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn benodol ym mharagraff 4, ystyrir na fydd y ddogfen wedi cael ei chyflwyno.

7. Nid bwriad y Protocol E-bost hwn yw cyfyngu ar ddisgresiwn y Barnwr, y Meistr na'r Cofrestrydd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i raddau mwy, neu lai, mewn achos priodol, fel y rhagwelir ym Mhennod 14 y Canllaw Siawnsri (argraffiad 2002).

8. Pan fydd parti yn anfon dogfen dros yr e-bost rhaid parhau i gydymffurfio ag unrhyw reol neu gyfarwyddyd ymarfer sy'n mynnu bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno i unrhyw berson arall.

9. Er mwyn osgoi amheuaeth, ar hyn o bryd nid yw Adran Siawnsri yr Uchel Lys Barn yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn derbyn dogfennau sy'n cael eu ffeilio'n electronig drwy'r gwasanaeth ffurflenni ar-lein y cyfeirir ato yn adran 11 Cyfarwyddyd Ymarfer 58.

10. Nid oes unrhyw beth yn y Protocol E-bost hwn:
    (a) Yn mynnu bod yn rhaid i unrhyw berson dderbyn dogfen wedi'i chyflwyno dros yr e-bost.
    (b) Yn effeithio ar unrhyw drefniadau ar gyfer cyfathrebu gydag unrhyw Gofrestrfa Ddosbarth neu lys sirol, boed hynny'n ymwneud â busnes Siawnsri ai peidio.

11. Nid yw'r e-bost yn gyfrwng cyfathrebu diogel. Rhaid i bartïon beidio ag e-bostio dogfennau cyfrinachol na sensitif. Rhaid cofio hyn yn enwedig mewn achosion a wrandewir yn gyfrinachol.

Ffurf y neges e-bost a'r atodiadau

12. Os yw enw'r Barnwr, y Meistr neu'r Cofrestrydd perthnasol yn hysbys, dylai corff y neges e-bost nodi'r enw hwn yn glir.

13. Mae paragraff 4.1 Cyfarwyddyd Ymarfer 58 wedi cael ei newid er mwyn datgan y dylai'r neges e-bost "fod mewn testun plaen neu HTML yn hytrach na fformat testun cyfoethog", ond mae gweddill y paragraff yn parhau i fod yn berthnasol.

14. At ddibenion paragraff 4.5 Cyfarwyddyd Ymarfer 58, cefnogir y fformatau canlynol ar gyfer atodiadau:

    (a) Fformat Microsoft Word (Word 97 neu Word 2000) (ffeiliau .doc).
    (b) Fformat Adobe Acrobat (a elwir hefyd yn Fformat Dogfen Gludadwy) (ffeiliau .pdf).
    (c) Fformat Testun Cyfoethog (ffeiliau .rtf).
    (d) Testun plaen (ffeiliau .txt).

15. At ddibenion paragraff 4.7 Cyfarwyddyd Ymarfer 58, rhaid i gyfanswm maint y neges e-bost (gan gynnwys pob atodiad) beidio â bod dros 8MB.

Derbyn negeseuon e-bost yn y Llys

16. Anfonir cydnabyddiaeth y derbyniwyd y neges e-bost. Nid yw'r neges hon yn cydnabod y derbyniwyd y neges e-bost gan y sawl y bwriadwyd iddo/iddi ei derbyn, dim ond cydnabyddiaeth y derbyniwyd y neges gan un o'r blychau post canolog a restrir ym mharagraff 4 uchod.

Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Morritt, Is-Ganghellor
11eg Ebrill 2005